Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

Allforion Bwyd a Diod Cymru
Bwletin Blynyddol 2019

Uchafbwyntiau

ROEDD ALLFORION BWYD A DIOD YNG NGHYMRU YN WERTH

£565M

YN 2019

CYNNYDD O £157M MILIWN ERS 2014

Y PRIF GYRCHFANNAU ALLFORIO OEDD

IWERDDON,

FFRAINC A'R

ISELDIROEDD

BU CYNNYDD O

£26M

MEWN ALLFORION BWYD A DIOD RHWNG '18 AC '19, GWELLIANT O GYMHARU Â'R CYNNYDD O

£10M

17 AC '18

Y CATEGORÏAU OEDD Â'R GWERTH UCHAF YN 2019 OEDD CIG A CHYNNYRCH CIG

(£169M)

A CHYNNYRCH LLAETH AC WYAU ADAR

(£132M)

AETH 75% O WERTH ALLFORION BWYD A DIOD O GYMRU I'R UE



BU'R DU YN ALLFORIO

£24BN

O FWYD A DIOD YN 2019, CYNNYDD O

4.8%

ERS 2018.

BU CYNNYDD O

4.8%

YN ALLFORION CYMRU HEFYD O FEWN YR UN CYFNOD.

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41079 ISBN digidol: 978-1-80082-285-6

Cyrchfannau allforio yn yr UE

Roedd allforion bwyd a diod o Gymru i wledydd yn yr UE werth £426 miliwn yn 2019, cynnydd o £32 miliwn ers y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cyfrif am 75% o allforion bwyd a diod yn 2019, sy'n uwch na ffigur y DU sydd ychydig o dan 60%. Dengys hyn bod allforion bwyd a diod yn dibynnu mwy ar yr UE. Roedd Gweriniaeth Iwerddon yn parhau i fod y gyrchfan oedd â'r gwerth uchaf ar £105 miliwn, gan ei wneud yn 19% o'r cyfanswm. Y 5 cyrchfan arall ar gyfer allforion bwyd a diod oedd Ffrainc (£83 miliwn), yr Iseldiroedd (£62 miliwn), Yr Almaen (£42 miliwn), a Sbaen (£37 miliwn).

Yr allforion â'r gwerth uchaf i gyrchfannau yr UE yn 2019 oedd Cig a Chynnyrch Cig (£131 miliwn), Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar (£105 miliwn), a Grawn a Pharatodau Grawn (£45 miliwn).

Ar draws pob categori bwyd, mae mwyafrif y cyrchfannau allforio o fewn yr UE. Llysiau a ffrwythau sy'n dibynnu fwyaf ar fasnach yr UE, gyda 91% o allforion (£17 miliwn) yn mynd i gyrchfannau yn yr UE. Yn y cyfamser, allforion Cynhyrchion a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol yw y rhai sy'n dibynnu leiaf ar allforion yr UE, gyda dim ond 58% o allforion (£45 miliwn) yn mynd i gyrchfannau yn yr UE.

Prif gyrchfannau yr UE ar gyfer allforion bwyd a diod o Gymru yn ôl gwerth, 2019



Cyrchfannau allforio y tu allan i'r UE

Roedd allforion bwyd a diod o Gymru i gyrchfannau y tu allan i'r UE werth £139 miliwn yn 2019. Roedd hyn £6 miliwn yn llai nag yn 2018, fodd bynnag roedd y ffigur wedi cynyddu o £19 mililwn ers 2017 ac £83 miliwn ers 2014. Y prif gyrchfannau nad oeddent o fewn yr UE ar gyfer allforion bwyd a diod o Gymru oedd UDA (£20 miliwn), Twrci (£11 miliwn), Awstralia (£9 miliwn), Sawdi Arabia (£9 miliwn), a Canada (£8 miliwn). Y 3 o brif allforion i gyrchfannau nad oeddent o fewn yr UE oedd Cig a Chynnyrch (£38 miliwn), Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol (£32 miliwn), a Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar (£27 miliwn).

Rhwng 2014 a 2019, roedd y cynnydd mwyaf mewn gwerth wrth allofrio nwyddau i gyrchfannau nad oeddent o fewn yr UE i Twrci (+£11 miliwn), UDA (+£9 miliwn), a Sawdi Arabia (+£9 miliwn). Roedd y cynnydd mwyaf rhwng 2018 a 2019 yn yr Aifft (+£3 miliwn), Gwlad yr Iorddonen (+£2 miliwn), a Rwsia (+£2 filiwn).

Gwerth allforion bwyd a diod yn ôl grŵp o wledydd nad ydynt o fewn yr UE, 2019



Ar ôl Brexit: Prif farchnadoedd ar gyfer allforion o Gymru

Yr UDA

Mae yr UDA yn gyrchfan bwysig ar gyfer allforion bwyd a diod o Gymru a dyma'r farchnad ddefnyddwyr sydd â'r gwerth uchaf yn y byd. Roedd allforion i'r UDA yn werth £20 miliwn yn 2019, cynnydd o £18 miliwn yn 2018 ac £11 miliwn yn 2014. Yr allforion bwyd a diod o Gymru i'r UDA oedd â'r gwerth mwyaf oedd Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol. Roedd allforion bwyd a diod i'r UDA yn werth £2.4 biliwn yn 2019.

Canada

Mae Canada yn brif lwybr i'r farchnad yng Ngogledd America ac mae masnach rhwng yr UE a Canada wedi ei hybu gan CETA. Roedd allforion bwyd a diod i Canada yn werth £8 miliwn yn 2019, gostyngiad o £3 miliwn o 2018. Yr allforion â'r gwerth uchaf oedd Grawn a Pharatoadau Grawn, gwerth £5 miliwn. Roedd allforion bwyd a diod o'r DU i Canada werth £346 miliwn yn 2019.

Awstralia

Mae gan farchnad Awstralia ymwybyddiaeth bositif o frandiau bwyd a diod o Gymru. Roedd allforion i Awstralia werth £9 miliwn yn 2019, cynnydd o £2 filiwn ers 2018. Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol oedd yr allforion o Gymru â'r gwerth uchaf, werth £4 miliwn.

Seland Newydd

Fel Awstralia, mae gan farchnad Seland Newydd ymwybyddiaeth dda o frandiau cynnyrch o Gymru. Roedd allforion bwyd a diod i Seland Newydd werth £1 miliwn yn 2019, dwbl y ffigur yn 2018. Allforion bwydydd anifeiliaid oedd yr allforion bwyd a diod â'r gwerth uchaf, gwerth £0.9 miliwn.

Siapan

Gyda'u gwaharddiad ar gig coch o Brydain wedi'i godi a chyfleoedd da ar gyfer codi ymwybyddiaeth brand, mae Siapan yn farchnad bwysig ar gyfer bwyd a diod o Gymru. Roedd allforion bwyd a diod i Siapan yn werth £4 miliwn yn 2019, mwy na dwbl ffigur 2017. Yr allforion mwyaf oedd anifeiliaid byw ag eithrio bwyd môr (£2 filiwn) a Chynnyrch Llaeth ac Wyau Adar (£1 miliwn).

Y Dwyrain Canol

Mae allforion bwyd a diod i gyrchfannau yn y Dwyrain Canol wedi tyfu'n sylweddol ers 2014. Y gwledydd â'r gwerth uchaf ar gyfer allforion bwyd a diod yn y Dwyrain Canol oedd Sawdi Arabia (£9 miliwn), Gwlad yr Iorddonen (£7 miliwn), ac Yr Emiraethau Arabaidd Unedig (£5 miliwn).

Cynnyrch weði'u hallforio

Yn 2019, y bwyd a'r diod o Gymru â'r gwerth uchaf oedd yn cael eu hallforio oedd Cig a Chynnyrch Cig (£169 miliwn), Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar (£132 miliwn), a Chynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol (£77 miliwn). Y cynnydd uchaf mewn canran rhwng 2018 a 2019 oedd allforion diodydd a gynyddodd 22%, gan godi o £26 miliwn i £31 miliwn. Allforion Grawn a Pharatoadau Grawn welodd y gostyngiad mwyaf mewn canran ar -28%, gan ostwng o £82 miliwn i £59 miliwn.

Cymharu allforion y DU a Chymru

O gymharu â'r DU, mae gan gyfraniad cymharol categorïau bwydydd unigol i gyfanswm allforion bwyd a diod yng Nghymru nifer o wahaniaethau amlwg. Cig a Chynnyrch Cig yw'r bwyd a'r diod â'r gwerth uchaf sy'n cael eu hallforio yng Nghymru, sy'n 30% o gyfanswm yr allforion, er mai dim ond 11% ydynt o gyfanswm yr allforion yn y DU. Yr allforion bwyd a diod sydd â'r gwerth uchaf yn y DU yw Diodydd, sy'n 33% o allforion, ond dim ond 6% ydynt yng Nghymru.

Prif gyrchfannau yr UE ar gyfer allforion bwyd a diod o Gymru yn ôl gwerth, 2019



Atodiad A. Tablau data

Gwerth Allforion Bwyd a Diod ac Holl Allforion Cymru a'r DU (£ miliwn), 2015–2019

	Cymru			DU			Cymru fel % o'r DU	
Blwyddyn	Bwyd & Diod	Holl Allforion	% o G'swm Cymru	Bwyd & Diod	Holl Allforion	% o G'swm Cymru	Bwyd & Diod	Holl Allforion
2015	404	13253	3	18361	275420	6.7%	2.2%	4.8%
2016	436	14630	3	20289	290946	7%	2.1%	5%
2017	529	16479	3.2	22201	328302	6.8%	2.4%	5%
2018	539	17190	3.1	22897	339506	6.7%	2.4%	5.1%
2019	565	17706	3.2	23945	346499	6.9%	2.4%	5.1%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Pwysau allforion bwyd a diod a chyfanswm allforion, Cymru a'r DU (tunnell), 2015–2019

	Cymru			DU			Cymru fel % o'r DU	
Blwyddyn	Bwyd & Diod	Holl Allforion	% o G'swm Cymru	Bwyd & Diod	Holl Allforion	% o G'swm Cymru	Bwyd & Diod	Holl Allforion
2015	223600	8525600	2.6%	14468100	153716000	9.4%	1.5%	5.5%
2016	203000	7846600	2.6%	15668200	154477400	10.1%	1.3%	5.1%
2017	201400	7515100	2.7%	13016200	160839100	8.1%	1.5%	4.7%
2018	228300	8309900	2.7%	13393300	160337600	8.4%	1.7%	5.2%
2019	268700	8581000	3.1%	15029700	154251500	9.7%	1.8%	5.6%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Gwerth allforion bwyd a diod Cymru yn ôl grŵp gwledydd (£ miliynau), 2015–2019

						2019 o'i chymharu â:	
Blwyddyn	2015	2016	2017	2018	2019	2015 % newid	2018 % newid
Yr Undeb Ewropeaidd	333	360	409	395	426	↑28%	↑8%
Dwyrain Canol a Gogledd Affrica	10	14	35	46	36	↑263%	↓23%
Asia ac Ynysoedd y De	19	20	25	33	34	↑82%	↑4%
Gogledd America	28	20	26	30	29	↑0%	↓4%
Gorllewin Ewrop (nid UE)	8	8	19	19	21	↑145%	↑9%
Affrica i'r De o'r Sahara	3	7	6	9	10	↑199%	↑12%
Dwyrain Ewrop	2	6	7	6	9	↑380%	↑38%
America Ladin a'r Caribi	1	1	1	2	1	↑116%	↓24%
Cyfanswm	404	436	529	539	565	↑40	↑5

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Canran o allforion bwyd a diod Cymru yn ôl y grŵp gwledydd, 2015–2019

Blwyddyn	2015	2016	2017	2018	2019
Yr Undeb Ewropeaidd	82%	83%	77%	73%	75%
Dwyrain Canol a Gogledd Affrica	2%	3%	7%	9%	6%
Asia ac Ynysoedd y De	5%	5%	5%	6%	6%
Gogledd America	7%	5%	5%	6%	5%
Gorllewin Ewrop (nid UE)	2%	2%	4%	3%	4%
Affrica i'r De o'r Sahara	1%	1%	1%	2%	2%
Dwyrain Ewrop (nid UE)	–	1%	1%	1%	2%
America Ladin a'r Caribi	–	–	–	–	–
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Gwerth Allforion Bwyd a Diod Cymru fesul cynnyrch (£ miliwn), 2015–2019

						2019 o'i chymharu â:	
Blwyddyn	2015	2016	2017	2018	2019	2015 % newid	2018 % newid
Cig a Chynnyrch Cig	94	122	147	142	169	↑79%	↑19%
Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar	91	89	120	110	132	↑46%	↑20%
Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol	46	61	73	78	77	↑68%	↓1%
Ydau a Pharatoadau o Ŷd	61	56	67	82	59	↓3%	↓28%
Bwyd Môr	25	27	32	31	31	↑24%	↑0%
Diodydd	39	32	29	26	31	↑19%	↑22%
Porthiant i Anifeiliaid	22	21	28	32	29	↑35%	↓10%
Llysiau a Ffrwythau	6	7	8	16	18	↑215%	↑14%
Coffi, Te, Coco, Sbeis	10	9	13	12	10	↑1%	↓16%
Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl	10	9	8	9	7	↓32%	↓23%
Olew a Braster	1	2	2	3	2	↑54%	↓23%
Cyfanswm	404	436	529	539	565	↑40%	↑5%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Canran Allforion Bwyd a Diod Cymru fesul Cynnyrch, 2015–2019

Blwyddyn	2015	2016	2017	2018	2019
Cig a Chynnyrch Cig	23%	28%	28%	26%	30%
Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar	22%	20%	23%	20%	23%
Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol	11%	14%	14%	14%	14%
Ydau a Pharatoadau o Ŷd	15%	13%	13%	15%	11%
Bwyd Môr	6%	6%	6%	6%	6%
Diodydd	10%	7%	6%	5%	6%
Porthiant i Anifeiliaid	5%	5%	5%	6%	5%
Llysiau a Ffrwythau	1%	2%	1%	3%	3%
Coffi, Te, Coco, Sbeis	2%	2%	2%	2%	2%
Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl	2%	2%	2%	2%	1%
Olew a Braster	–	–	–	–	–
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%	100%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Pwysau Allforion Bwyd a Diod fesul Cynnyrch (tunelli), 2015–2019

Blwyddyn	2015	2016	2017	2018	2019	2019 o'i chymharu â: 2015 % newid	2019 o'i chymharu â: 2018 % newid
Cig a Chynnyrch Cig	37,000	39,700	40,600	43,500	49,500	↑34%	↑14%
Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar	48,300	41,400	37,100	35,600	57,400	↑19%	↑61%
Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol	15,400	17,000	16,300	14,500	13,900	↓10%	↓4%
Ydau a Pharatoadau o Ŷd	24,400	20,500	25,200	43,700	60,300	↑147%	↑38%
Bwyd Môr	8,700	7,300	9,600	5,500	7,600	↓13%	↑39%
Diodydd	41,900	39,100	36,500	34,500	42,200	↑1%	↑22%
Porthiant i Anifeiliaid	26,800	20,200	20,700	31,000	20,200	↓25%	↓35%
Llysiau a Ffrwythau	4,700	3,900	3,900	6,700	8,100	↑75%	↑21%
Coffi, Te, Coco, Sbeis	2,200	1,800	2,300	2,400	1,900	↓15%	↓21%
Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl	13,500	10,800	8,200	9,900	6,800	↓50%	↓32%
Olew a Braster	700	1,200	1,000	900	700	↑7%	↓19%
Cyfanswm	223,600	203,000	201,400	228,200	268,700	↑20%	↑18%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

5 Prif Gynnyrch Bwyd a Diod Cymru a'r 5 Prif Wlad sy'n eu Mewnforio (Gwerth mewn £ miliwn, pwysau mewn tunelli), 2015–2019

Cig a Chynnyrch Cig	2015		2016		2017		2018		2019	
	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau
Ffrainc	26	7,400	31	8,500	32	7,600	33	8,400	39	9,200
Gweriniaeth Iwerddon	23	10,100	25	10,300	25	9,600	24	8,700	23	9,400
Yr Almaen	6	1,800	14	3,700	15	3,800	14	4,800	16	7,300
Yr Iseldiroedd	8	9,900	9	4,500	13	8,400	12	10,900	14	9,700
Yr Eidal	7	1,500	7	1,400	9	1,500	8	1,200	12	2,000

Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar	2015		2016		2017		2018		2019	
	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau
Gweriniaeth Iwerddon	17	10,100	18	8,600	20	7,700	25	10,400	25	20,300
Yr Iseldiroedd	10	10,700	9	6,300	13	6,500	10	5,300	23	12,900
Ffrainc	16	7,400	14	7,400	15	4,700	17	5,300	17	5,800
Yr Almaen	9	4,200	6	3,200	8	2,700	11	3,000	10	3,400
Twrci	1	200	1	200	6	600	6	600	8	600

Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol	2015		2016		2017		2018		2019	
	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau
UDA (gan gynnwys Puerto Rico)	4	200	7	400	8	200	12	300	11	300
Gweriniaeth Iwerddon	5	2,000	8	3,000	10	3,500	8	2,800	8	2,700
Yr Almaen	5	900	8	1,600	9	1,500	8	1,400	8	1,200
Ffrainc	6	3,100	5	2,300	7	2,300	7	1,700	7	1,500
Yr Iseldiroedd	5	900	5	1,000	4	900	5	1,300	5	1,300

Ydau a Chynnyrch o Ŷd	2015		2016		2017		2018		2019	
	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau
Gweriniaeth Iwerddon	21	9,400	21	9,300	20	10,500	24	16600	24	14,900
Ffrainc	12	4,800	10	3,000	10	2,700	10	2700	9	2,500
Yr Iseldiroedd	3	1,700	3	1,700	3	1,700	5	8400	5	13,600
Canada	4	600	3	600	4	800	4	700	5	700
Sbaen	1	600	1	300	1	400	1	2100	3	13,800

Bwyd Môr	2015		2016		2017		2018		2019	
	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau	Gwerth	Pwysau
Sbaen	13	3,400	16	3,800	15	3,000	15	2,600	15	2,600
Yr Iseldiroedd	3	3,500	2	1,700	4	2,200	3	1,200	5	3,400
Ffrainc	3	900	3	800	4	2,900	4	600	3	600
De Corea	4	500	4	600	4	500	5	500	3	300
Tsieina	0	0	0	0	2	300	2	300	2	300

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Gwerth allforion bwyd a diod o Gymru fesul gwlad y DU / rhanbarth Lloegr (£ miliynau), 2015–2019

						2019 o'i chymharu â:	
Blwyddyn	2015	2016	2017	2018	2019	2015 % newid	2018 % newid
Cymru	404	436	529	539	565	↑40%	↑5%
Yr Alban	4,747	5,235	5,726	5,890	6,269	↑32%	↑6%
Gogledd Iwerddon	1,426	1,436	1,721	1,899	1,888	↑32%	↓1%
Gogledd-ddwyrain Lloegr	242	241	245	243	257	↑6%	↑5%
Gogledd-orllewin Lloegr	1,508	1,736	1,923	1,841	1,938	↑28%	↑5%
Swydd Efrog a'r Humber	932	1,010	1,125	1,166	1,236	↑33%	↑5%
Dwyrain Canolbarth Lloegr	855	927	951	993	1,079	↑26%	↑9%
Gorllewin Canolbarth Lloegr	643	694	771	816	775	↑21%	↓5%
Dwyrain Lloegr	1,690	1,844	1,989	1,988	2,126	↑26%	↑7%
Llundain	2,333	2,625	2,882	2,984	3,027	↑30%	↑1%
De-ddwyrain Lloegr	1,282	1,488	1,610	1,532	1,621	↑27%	↑6%
De-orllewin Lloegr	635	729	809	814	886	↑40%	↑9%
Cyfanswm	18,363	20,342	22,280	22,856	23,945	↑30%	↑5%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

Perthnasedd

Mae'r bwletin hwn yn cynnwys dadansoddiad o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau (RTS) **CThEM** (Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi). Mae'r ffigurau i gyd mewn punnoedd Prydeinig ar sail prisiau cyfredol, nid ydynt wedi cael eu haddasu i ystyried chwyddiant neu gyfraddau cyfnewid arian.

Mae'r holl ddata yn y briff hwn ar gyfer blynyddoedd calendr o 1 Ionawr i 31 Rhagfyr. Nodwch fod y data ar gyfer y flwyddyn fwyaf diweddar yn ddata dros dro a gallai gael eu newid.

Defnyddiwyd un ar ddeg o gategorïau SITC rev.4 (Dosbarthiad Masnach Ryngwladol Safonol) fel a ganlyn i roi'r darlun gorau o'r sector Allforion Bwyd a Diod cyfan:

00 Anifeiliaid byw heblaw'r rheini yng nghategori 03

01 Cig a pharatoadau cig (Cafodd categorïau 00 ac 01 eu huno i greu uwch gategori: "Cig a chynnyrch cig")

02 Cynnyrch llaeth ac wyau adar

03 Pysgod (gan gynnwys mamaliaid morol), cramenogion, molysgiaid ac infertebratau morol a pharatoadau ohonynt

04 Ydau a pharatoadau o ŷd

05 Llysiau a ffrwythau

06 Siwgr, paratoadau siwgr a mêl

07 Coffi, te, coco, sbeis a chynnyrch ohonynt

08 Porthiant i anifeiliaid (heb gynnwys ydau heb eu malu)

09 Cynnyrch a pharatoadau bwytadwy amrywiol



11 Diodydd

41 Olew a braster o anifeiliaid

42 Braster ac olew llysieuol sefydlog amrwd, wedi'u puro neu eu ffracsiynu (Cafodd categorïau 41 ac 42 eu huno i greu uwch gategori: "Olew a braster)

DS: ni chafodd categori 43 ("Braster ac olew o anifeiliaid neu lysiau, wedi'u prosesu; cwyr o anifeiliaid neu lysiau; cymysgeddau neu baratoadau anfwytadwy o fraster neu olew o anifeiliaid neu lysiau, n.e.s.") ei gynnwys oherwydd ei fod yn cynnwys bwyd anfwytadwy.

O'r 13 categori hwn, diffiniwyd 11 o gategorïau cynnyrch, gan i gategorïau 00 ac 01 gael eu crynhoi mewn un categori *Cig a chynnyrch cig*, ac i gategorïau 41 a 42 gael eu crynhoi mewn un categori *Olew a Braster*.

Cafodd "Storfeydd a Darpariaethau y tu allan i Ewrop" eu cynnwys ymysg yr ardaloedd allforio cyrchfan er mwyn bod yn gyson â'r hyn a gyhoeddwyd gan CThEM ar lefel genedlaethol (www.uktradeinfo.com).

Cywirdeb

Y data yn y bwletin hwn yw'r Ystadegau Masnach Rhanbarthol (RTS) a gyhoeddir gan CThEM. Mae'r ystadegau'n ymdrin â nwyddau sydd wedi croesi ffiniau'r DU. Mae hyn yn golygu nad yw allforion o Gymru i rannau eraill y DU wedi'u cynnwys ac nid oes elfen wedi'i chynnwys chwaith ar gyfer cydrannau a gynhyrchir yng Nghymru pan mae' cynnyrch gorffenedig yn cael ei orffen mewn rhan arall o'r DU a'i allforio o fanno. Nid yw CThEM yn cael gwybodaeth am nwyddau sy'n symud o fewn y DU yn unig.